



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Rhaglen Diwygio Mynediad

Papur Adnabod Opsiynau: Grŵp Arbenigol 3
Cyfathrebu Hawliau Mynediad

Papur Adnabod Opsiynau: Diwygiadau 3A a 3B

Cyflwyniad

Cynhaliwyd ail rownd cyfarfodydd Grŵp Arbenigol 3 ar 2 a 6 Ebrill 2020, dros Skype, i argymhell a thrafod opsiynau ar gyfer gweithredu'r bwriad polisi a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Diwygiadau 3A a 3B.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r prif opsiynau diwygio a nodir ar gyfer gweithredu Diwygiadau 3A a 3B yn dilyn y cyfarfodydd hynny.

Bydd yr opsiynau diwygio a nodwyd o'r cam hwn o broses y grŵp arbenigol yn cael eu datblygu i'w hystyried yn fanwl gan y grŵp arbenigol a rhanddeiliaid eraill. Bydd hyn yn cynnwys darparu mwy o fanylion a dadansoddiad ar gyfer pob cynnig – gan gynnwys unrhyw elfennau cyffredin a/neu faterion trawsbynciol.

Dylid nodi bod cynnwys y papur hwn yn cyfrannu at ddatblygu cyngor i Lywodraeth Cymru ar gyfer diwygio deddfwriaeth mynediad fel rhan o broses y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad (ARAG). Nid yw unrhyw wybodaeth ac allbynnau o'r fath a gynhyrchir yn ystod y broses ARAG yn cynrychioli safbwynt polisi Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru nac aelodau eraill o'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad (grŵp llywio / grwpiau arbenigol).

Proses

Yn dilyn y cyfarfod cyntaf, gofynnwyd i'r aelodau ystyried y papur diffinio problemau a gynhyrchwyd ar gyfer pob diwygiad a chyflwyno 'Cynigion ar gyfer Opsiynau Diwygio Amlinellol' sy'n crynhoi dulliau posibl ar gyfer gweithredu'r bwriad polisi a nodwyd ar gyfer pob diwygiad.

Cyflwynwyd ac ystyriwyd y cynigion diwygio amlinellol hyn gan aelodau'r grŵp arbenigol. Cymharwyd y cynigion amrywiol wedi hyn a'u grwpio yn ôl dulliau bras cyffredinol.

Diystyriwyd yr opsiynau hynny nad oeddynt yn amlwg o fewn cwmpas y diwygiad a bwriad polisi a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Ystyriwyd y cynigion oedd yn weddill ymhellach mewn is-grwpiau. Gofynnwyd i'r is-grwpiau ychwanegu gwybodaeth a manylion pellach am yr elfennau allweddol y byddai angen i bob cynnig eu cynnwys, gan gymryd ystyriaeth o'r materion allweddol a nodwyd yn y papur diffinio problemau/materion.

Diwygiad 3A

Adnabod opsiynau diwygio amlinellol

Cynigiwyd nifer o gynigion amlinellol gan aelodau a'u cylchredeg er mwyn eu trafod cyn yr ail rownd o gyfarfodydd Grŵp Arbenigol 3. Maent wedi'u crynhoi yn y tabl sy'n dilyn:

3A: Teitl y cynnig amlinellol	Disgrifiad cryno o'r cynnig amlinellol
<p>i. Map digidol o Gymru gyfan [o hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy]</p>	<p>Datblygu un map digidol sy'n cwmpasu mynediad cyhoeddus statudol yng Nghymru (hawliau tramwy cyhoeddus, tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, Llwybrau Cenedlaethol a thir comin). Y prif ddiben yw cadw gwybodaeth statudol a sicrhau ei bod yn hygyrch i bob defnyddiwr, gan gynnwys y cyhoedd, tirlfeddianwyr a staff awdurdodau lleol ac ati.</p> <p>Byddai'r map hefyd yn cynnwys haenau ar gyfer: dodrefn mynediad a mynediad symudedd; cyfyngiadau tymhorol neu hirdymor, gyda'r haen yn dangos map diffiniol. Dylai nodweddion map sy'n cael effaith gyfreithiol ac sy'n destun i gyfundrefnau statudol arwahanol barhau i gael eu cynnal ar wahân at ddibenion gweinyddu'r cyfundrefnau hynny, megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae prosesau gwahanol yn gymwys <p>Mae asiantaethau gwahanol yn geidwaid ar gyfer y mapiau hynny</p>
<p>ii. Map diffiniol o dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a hawliau tramwy cyhoeddus (opsiwn amgen)</p>	<p>Opsiwn amgen: Nodweddion map sy'n disgrifio hawliau cyhoeddus clir a rhai y gellir eu defnyddio yn unig y dylid eu dangos ar fapiau diffiniol a dylid cysoni'r prosesau ar gyfer cofnodi'r hawliau hynny:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hawliau tramwy cyhoeddus diffiniol • Tir mynediad diffiniedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy <p>Dylai tir mynediad fod yn destun adolygiad parhaus a ysgogwyd gan ddigwyddiad cyfreithiol neu dystiolaeth. Dylai un asiantaeth fod yn gyfrifol am stiwardiaeth y map os digwydd hyn.</p> <p>Bydd gofyniad i bob awdurdod lleol gynhyrchu haen ddigidol o hawliau tramwy cyhoeddus a gwybodaeth gysylltiedig (datganiad rheoli data (lled, adeileddau sydd wedi'u cofnodi) gwybodaeth adran 147, ac ati). Gan ddefnyddio deddfwriaeth, byddai'r haen ddigidol hon yn dod yn fap diffiniol.</p> <p>Mae rheoliadau'n darparu ar gyfer diffinio data gofodol statudol ychwanegol ar hawliau tramwy cyhoeddus ac ar gyfer ei gynnwys ar y map (gan gynnwys ar gyfer 'gorchmynion llwybrau cyhoeddus (PPO) a gorchmynion addasu mapiau diffiniol (DMMO) a chofrestrau).</p>
<p>iii. Sefydliad mapio a hyrwyddo'r trydydd sector</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Corff/ymddiriedolaeth nid-er-elw statudol a sefydlwyd gyda'r nod o: 'annog mwy o bobl i fwynhau'r awyr agored mewn modd cyfrifol ac i sicrhau llesiant a buddion amgylcheddol ac economaidd ar gyfer pobl a chymunedau yng Nghymru a'i hymwelwyr' • Bydd gan gyrff cyhoeddus perthnasol ddyletswydd i ddarparu, fel y nodir mewn rheoliadau, wybodaeth mynediad wedi'i mapio a gwybodaeth mynediad gysylltiedig • Bydd gan y corff ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd, yn ogystal â phwerau i

	<p>gychwyn cytundebau gyda chyrrff eraill sy'n darparu mynediad hirdymor i'r awyr agored ar gyfer y cyhoedd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd gan y corff ddyletswydd i hyrwyddo gwybodaeth i bobl Cymru ac ymwelwyr â Chymru – pwerau i hyrwyddo y tu allan i Gymru, a'r gallu i godi arian a chodi tâl am wasanaethau, gydag unrhyw arian a gynhyrchir yn cael ei ddefnyddio at ddibenion statudol <p>Dylai'r data sydd angen ei ddarparu gynnwys: hawliau tramwy cyhoeddus, tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, Llwybrau Cenedlaethol a Llwybr Arfordir Cymru; llwybrau teithio llesol; cau dros dro cysylltiedig a gwaharddiadau a chyfyngiadau o natur statudol; codau mynediad cysylltiedig</p>
--	---

Cynigion ar gyfer opsiynau diwygio – nodi elfennau gofynnol pellach

Ar gyfer pob un o'r cynigion amlinellol a nodwyd uchod, nodwyd disgrifiad cryno ac elfennau allweddol, neu gynhwysion, y byddai eu hangen ar gyfer pob dull opsiwn arfaethedig. Mae'r elfennau hyn wedi'u crynhoi isod ar gyfer pob cynnig amlinellol.

3A(i) Map digidol o Gymru gyfan [o hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy]

Elfennau allweddol o fewn y cynnig opsiwn ar gyfer map digidol o Gymru gyfan:

Cyfeirnod	3A(i) Elfennau allweddol ar gyfer opsiwn	Elfennau allweddol amgen ar gyfer opsiwn
001.	<p>Cyflwyno deddfwriaeth sy'n gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n diffinio cyfrifoldeb gan un corff i gynhyrchu a chyhoeddi data a map[iau] ar-lein yn dangos mynediad cyhoeddus penodedig yng Nghymru • Bydd gan bob corff cyhoeddus [fel ar hyn o bryd] gyfrifoldeb ar gyfer ei haenau data mynediad cyhoeddus ei hun [h.y. awdurdodau lleol / awdurdodau parciau cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru; gellir nodi eraill] • Bydd gan gyrrff cyhoeddus ddyletswydd i ddarparu haenau data mynediad cyhoeddus i gorff unigol <p>Dylai haenau data gynnwys ar un porth map a data: hawliau tramwy cyhoeddus, tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, Llwybrau Cenedlaethol, Llwybr Arfordir Cymru a thir comin hygyrch</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd pwerau yn cynnwys data mynediad hamdden arall o fewn y map a dylid cychwyn cytundebau ar gyfer darparu data [e.e. Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol; llwybrau hamdden wedi'u hyrwyddo [PRRs]; data am ddodrefn mynediad] <p>Bydd rhaid i awdurdodau lleol ddarparu mapiau mynediad integredig ar-lein i'r cyhoedd ar gyfer eu hardaloedd eu hunain</p>

Cyfeirnod	3A(i) Elfennau allweddol ar gyfer opsiwn	Elfennau allweddol amgen ar gyfer opsiwn
002.	Dylai'r ddeddfwriaeth nodi bod angen i'r data gofodol perthnasol fod yn ffynhonnell agored ac yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio gan y cyhoedd, hefyd at ddibenion masnachol ac anfasnachol [o fewn telerau ac amodau sylfaenol]. Rhoi data at ei gilydd fel un ffynhonnell.	<ul style="list-style-type: none"> • Dim defnydd yn rhad ac am ddim os caiff ei gyfyngu gan faterion hawlfraint mapio • Mae angen codi tâl am aildefnyddio data masnachol ar raddfa fawr – gyda photensial i gael rhywfaint o incwm yn gymhorthdal i'r costau • Data yn destun i delerau ac amodau trwyddedig
003.	Pwerau rheoleiddio i osod safonau data mynediad i Gymru a phrosesau angenrheidiol eraill, gan gynnwys sut, pryd [ac ati] y mae pob darparwr haenau data yn cyflenwi ei ddata a'r hyn y mae'n ei gynnwys (e.e. trwy WFS) i'r corff unigol ar gyfer ei rannu trwy borth data ac ar gyfer y map integredig ar-lein	Dylid cynnwys llwybrau sydd wedi'u hyrwyddo a darparu data cysylltiedig a safonau eraill
004.	Ni fydd deddfwriaeth yn nodi bod y map integredig yn fap cyfreithiol terfynol [h.y. yn ddiffiniol yn ôl y gyfraith]	
005.	Bydd cyfrifoldeb am y data yn aros gyda darparwr y data	
006.	Bydd gofyniad ar y corff unigol i gyhoeddi a hyrwyddo'r data/map ar-lein. Bydd dyletswydd ar ddarparwyr y wybodaeth mynediad i lywio/hyrwyddo mapio/data Cymru ar-lein.	Bydd gofyniad ar awdurdodau lleol i arwain y gwaith o lywio a hyrwyddo'r data/map ar gyfer eu hardaloedd Bydd gofyniad ar ddarparwyr data mynediad yn unig i ddarparu data at ddefnydd trwyddedig am ddim trwy borth/hwb data Cymru [bydd yr haenau data a safonau yn cael eu nodi yn y rheoliadau]
007.	Bydd gwybodaeth ategol i ddata a mapio yn sicrhau eglurder o ran yr hawliau a chyfrifoldebau sy'n gymwys	Bydd rheoliadau yn cael eu diwygio, yn destun i ddiwygiadau 2A/B, ar gyfer sut y mae llwybrau cerdded yn cael eu cynrychioli ar fapiau.
008.	Bydd gofyniad ar gorff unigol i roi adborth i ddarparwyr data fel awdurdodau lleol	
009.	Bydd pwerau yn cynnwys bod haenau data eraill yn bodloni safonau data ac ansawdd penodol	Pwerau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau fapio seilwaith mynediad penodol fel gathiau, camfeydd, grisiau,

Cyfeirnod	3A(i) Elfennau allweddol ar gyfer opsiwn	Elfennau allweddol amgen ar gyfer opsiwn
		gyda'r bwriad o ddarparu hyn fel gwybodaeth yn y dyfodol
010.	Ni fydd ofyniad o ran nodi ar ffurf ofodol a darparu ar gyfer map integredig popeth o dan adran 147 o Ddeddf Priffyrdd 1980 [awdurdodiad ar gyfer camfeydd, gatiau ac ati]	Cyflwyno dyletswydd i bopeth newydd o dan adran 147 gael ei gofnodi'n ddigidol. Dyletswydd gynyddrannol ar gyfer cofnodi seilwaith mynediad cyhoeddus ar fynediad cyhoeddus ar ffurf ofodol [ar fap diffiniol a safonau a thrwy awdurdodiadau adran 147]

Mae'n bosibl nodi amrywiadau mewn un neu fwy o elfennau allweddol ar gyfer cynnig opsiwn a chadw'r dull cyffredinol ar yr un pryd. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y tabl uchod.

3A(ii) Map diffiniol o dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a hawliau tramwy cyhoeddus (opsiwn amgen)

Elfennau allweddol o fewn cynnig opsiwn map diffiniol o dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy / hawliau tramwy cyhoeddus:

Cyfeirnod	3A(ii) Elfennau allweddol ar gyfer opsiwn	Elfennau allweddol amgen ar gyfer opsiwn
001.	Sefydlu/nodi asiantaeth unigol â dyletswydd i arolygu, cofnodi, cyhoeddi a chynnal map diffiniol o hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yng Nghymru.	Coladu map o ddata presennol asiantaethau. Bydd corff unigol yn casglu'r wybodaeth gan y gweddill. 22 o fapiau awdurdodau lleol wedi'u hintegreiddio o fewn un elfen neu un map terfynol (cyfrifoldeb unigol)
002.	Bydd asiantaeth unigol â dyletswydd i gyhoeddi mapio integredig ar-lein	
003.	Mae deddfwriaeth yn darparu y bydd y map sy'n deillio o hyn yn gyfreithiol derfynol o ran y wybodaeth sydd ynddo	
004.	Bydd y rheoliadau yn nodi gofynion data technegol ar gyfer yr haenau data	
005.	Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol / Cyfoeth Naturiol Cymru i ddarparu haenau data mynediad diffiniol penodol i'r corff unigol eu cyhoeddi [drwy ba bynnag datrysiad technegol]	
006.	Deddfwriaeth ddiwygiedig – cysoni prosesau ar gyfer prosesau mapio hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy	Nid yw'r map integredig yn seiliedig ar newidiadau i brosesau mapio hawliau tramwy cyhoeddus / tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar wahân i newid y corff â chyfrifoldeb
007.	Mae'r ddyletswydd mapio o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy wedi newid i adolygiad parhaus sy'n bwydo i mewn i'r map integredig	Proses fapio ddiffiniol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar waith
008.	Sefydlu un corff â dyletswydd gyfreithiol i arolygu, cofnodi, cynnal a chyhoeddi map[iau] diffiniol integredig ar-lein o hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer Cymru	Creu map integredig o Gymru ond gadael y cyfrifoldeb gydag awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru i ddarparu fersiwn diffiniol o fapiau o hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy [yn debyg i'r opsiwn arall a ddarparwyd yn y papur 2A(i) hwn].

Cyfeirnod	3A(ii) Elfennau allweddol ar gyfer opsiwn	Elfennau allweddol amgen ar gyfer opsiwn
		Nodi y dylai awdurdodau lleol gyhoeddi eu mapiau diffiniol eu hunain ar-lein. Mae hwb mapio sy'n cyfeirio pobl i dudalennau ar-lein awdurdodau lleol neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu un pwynt mynediad ar gyfer Cymru
009.	Datblygu datrysiad technegol i lunio data 'amser real' gan awdurdodau lleol / Cyfoeth Naturiol Cymru ar y map integredig	

3A(iii) Sefydliad mapio a hyrwyddo'r trydydd sector

Elfennau allweddol o fewn cynnig opsiwn sefydliad mapio a hyrwyddo'r trydydd sector:

Cyfeirnod	3A(iii) Elfennau allweddol ar gyfer opsiwn	Elfennau allweddol amgen ar gyfer opsiwn
001.	Deddfu ar gyfer 'sefydliad/ymddiriedolaeth hyrwyddo mynediad' nid-er-elw sydd â'r diben o ddarparu gwybodaeth ar gyfer a hyrwyddo mwynhau yn yr awyr agored.	Cydgrynhoi data o fewn un porth data ar-lein (fel porth data Lle Llywodraeth Cymru) a chaniatáu pobl a sefydliadau i'w ddefnyddio – yn amodol ar drwydded i'w ddefnyddio'n briodol yn unig [Gweler yr opsiynau eraill arfaethedig ar gyfer 3A]
	Dyletswydd statudol ar y sefydliad hyrwyddo mynediad i hyrwyddo gwybodaeth mynediad benodol i bobl Cymru ac ymwelwyr. Pwerau i hyrwyddo gwybodaeth mynediad i bobl y tu allan i Gymru yn unol ag amcanion y sefydliad	Trwyddedu sut y defnyddir data er mwyn sicrhau defnydd priodol (e.e. defnyddio setiau data cyfoes ar bob adeg) ac atal camddefnydd
002.	Bydd dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru / awdurdodau lleol i ddarparu data mynediad cyhoeddus penodol i'r sefydliad hyrwyddo mynediad – gyda sancsiynau cysylltiedig os nad yw'n cael ei ddarparu. Bydd angen i'r data gynnwys y canlynol:	

Cyfeirnod	3A(iii) Elfennau allweddol ar gyfer opsiwn	Elfennau allweddol amgen ar gyfer opsiwn
	<ul style="list-style-type: none"> - Hawliau tramwy cyhoeddus a ddiffinnir - Tir mynediad diffiniedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (gan gynnwys gwaharddiadau a chyfyngiadau) - Llwybrau Cenedlaethol dynodedig a Llwybr Arfordir Cymru - Eraill i'w nodi o fewn y rheoliadau <p>Dylai fod disgrisiwn i gynnwys eraill er mwyn bodloni diben cyffredinol y sefydliad</p>	
003.	Dylai pwerau rheoliadol ddiffinio sut y dylai data mynediad cyhoeddus penodol [gweler uchod] gael ei gofnodi, ei gynrychioli'n ofodol, a'i ddarparu i'r sefydliad sy'n hyrwyddo mynediad ac, yn ei dro, i'r cyhoedd [ac eraill ble mae'n ofynnol]	
004.	Dyletswydd benodol i ddarparu'r wybodaeth mapio a data i'r cyhoedd ar-lein am ddim; bydd defnydd ac ailddefnydd o ddata yn destun trwydded	Bydd angen codi ffi ar gyfer ailddefnydd masnachol o ddata a mapio sy'n fwy na gwerth penodol
005.	Deddfwriaeth i ddarparu gallu ar gyfer sefydliad i gynhyrchu incwm ac ennill grantiau ac ati i gefnogi dibenion statudol; hefyd, y gallu i godi tâl / cael incwm ar gyfer gwasanaethau ychwanegol sydd y tu allan i'r gofyniad statudol	
006.	Byddai deddfwriaeth yn caniatáu cynnwys haenau mynediad cyhoeddus eraill ar y gwaith mapio neu fel data	
007.	Mae angen diffinio atebolrwydd perthnasol y cynhaliwr data a'r cyhoeddwr data.	
008.	Ffordd unffurf o gyhoeddi a hyrwyddo'r gwasanaeth gwybodaeth; yr ymgyrch i ddarparu'r wybodaeth (cyhoeddi)	
009.	Eraill sydd hefyd yn hyrwyddo (dyletswydd) fel sefydliad gwirfoddol.	

Diwygiad 3B

Adnabod opsiynau diwygio amlinellol

Nododd cam cyntaf y broses y cynigion amlinellol eang canlynol ac a oeddent o fewn y cwmpas ac a ddylent gael eu hystyried ymhellach. Mae'r opsiynau amlinellol wedi'u crynhoi yn y tabl sy'n dilyn:

3B: Teitlau'r cynigion amlinellol	Disgrifiad cryno o'r cynigion amlinellol
i. Cynlluniau Mynediad Integredig at Ddibenion Hamdden	Dylai cynlluniau integredig gael eu harwain gan awdurdodau lleol a dylent ddisodli'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy presennol pan fyddant yn dod i ben. Os bydd y cynlluniau integredig yn mynd i fod yn

3B: Teitlau'r cynigion amlinellol	Disgrifiad cryno o'r cynigion amlinellol
	<p>ofyniad statudol, dylai'r ddyletswydd i gynhyrchu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy o dan adran 60 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy gael ei diddymu er mwyn osgoi dyblygu.</p> <p>Dylai cynlluniau integredig fod yn llai manwl, gan leihau'r angen i gychwyn llif gwaith newydd. Dylent ddisgrifio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darpariaeth bresennol • Prosiectau gwella arfaethedig a nodir o fewn dogfennau presennol (mapiau o rwydweithiau teithio llesol, cynlluniau cyflenwi Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy, prosiectau pwrpasol wedi'u hariannu) <ul style="list-style-type: none"> • Gwelliannau dymunol a nodir gan Fforymau Mynediad Lleol neu sydd wedi'u cyflwyno gan gymunedau <p>Dylai cynlluniau gynnwys nod i greu mynegai o brosiectau a ariennir a phrosiectau parod y gall awdurdodau, Fforymau Mynediad Lleol, cymunedau a phartneriaid ei ddefnyddio i lunio cynigion.</p>
<p>ii. Dull diwygiedig ac estynedig ar gyfer Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu dyletswydd ar awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol i gynhyrchu cynlluniau ar gyfer gwella mwynhad o'r awyr agored drwy hamdden. Byddai'r cynllun yn cynnwys gwella hawliau tramwy lleol, llwybrau beicio, tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, a manau gwyrdd a glas a reolir ac sy'n hygyrch i'r cyhoedd. • Mae'n rhaid i'r cynllun integredig gefnogi cyflenwi amcanion Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a'r Datganiad Ardal perthnasol. • Byddai gofyn i bartneriaid penodol â chyfrifoldebau dros reoli mynediad cyhoeddus weithio ar y cyd gyda'r awdurdod lleol neu awdurdod parc cenedlaethol i gynhyrchu'r cynllun a byddai hyn yn cynnwys y corff sy'n gyfrifol am deithio llesol, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Sustrans <p>Byddai'r cynlluniau yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • asesiad o anghenion presennol ac anghenion y dyfodol y cyhoedd ar gyfer mynediad i'r awyr agored at ddibenion hamdden; • datganiad strategol ar sut bydd y mynediad yn cael ei wella; • cynllun gweithredu deng mlynedd o hyd â chamau gweithredu penodol ar gyfer gwella mynediad i'r cyhoedd; • byddai angen cynnal adolygiad interim o'r cynlluniau ar ddiwedd cyfnod o bum mlynedd. Byddai gofyn cynhyrchu cynllun sydd wedi'i adolygu a'i ddiwygio ar ddiwedd cyfnod o ddeng mlynedd.

3B: Teitlau'r cynigion amlinellol	Disgrifiad cryno o'r cynigion amlinellol
	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfrifoldeb dros arwain y camau a nodwyd o fewn camau'r cynllun.
iii. Cynllun Gwella Mynediad Strategol Cenedlaethol at Ddibenion Hamdden	<p>Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynhyrchu cynllun strategol ar gyfer asedau hamdden ar raddfa genedlaethol fel Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol. Byddai'r cynllun yn bwydo i mewn i'r cynlluniau integredig unigol ar gyfer ardaloedd pob awdurdod.</p> <p>Byddai cynllunio manwl ar gyfer asedau yn parhau o fewn y rhaglenni perthnasol.</p>

Cynigion ar gyfer opsiynau diwygio – nodi elfennau gofynnol pellach

Ar gyfer pob un o'r cynigion amlinellol a nodwyd uchod, nodwyd disgrifiad cryno ac elfennau allweddol, neu gynhwysion, y byddai eu hangen ar gyfer pob dull opsiwn arfaethedig. Mae'r elfennau hyn wedi'u crynhoi isod ar gyfer pob cynnig amlinellol.

*Mae'n bosibl y bydd gan gynnig opsiwn amrywiadau o ran un neu fwy o'r elfennau allweddol, wrth gadw at y dull cyffredinol. Mae'r rhain wedi'u nodi o fewn y tabl.

3B(i) Cynlluniau Mynediad Integredig at Ddibenion Hamdden (IRAP)

Dylai cynlluniau integredig gael eu harwain gan awdurdodau lleol a dylent ddisodli'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy presennol pan fyddant yn dod i ben. Os bydd y cynlluniau integredig yn mynd i fod yn ofyniad statudol, dylai'r ddyletswydd i gynhyrchu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy o dan adran 60 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy gael ei diddymu er mwyn osgoi dyblygu.

Dylai cynlluniau integredig fod yn llai manwl, gan leihau'r angen i gychwyn llif gwaith newydd. Dylent ddisgrifio:

- Darpariaeth bresennol
- Prosiectau gwella arfaethedig a nodir o fewn dogfennau presennol (mapiau o rwydweithiau teithio llesol, cynlluniau cyflenwi Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy, prosiectau pwrpasol wedi'u hariannu)
- Gwelliannau dymunol a nodir gan Fforymau Mynediad Lleol neu sydd wedi'u cyflwyno gan gymunedau

Dylai cynlluniau gynnwys nod i greu mynegai o brosiectau a ariennir a phrosiectau parod y gall awdurdodau, Fforymau Mynediad Lleol, cymunedau a phartneriaid ei ddefnyddio i lunio cynigion.

Elfennau allweddol o fewn cynnig opsiwn cynlluniau mynediad integredig at ddibenion hamdden:

Cyfeirnod	3B(i) Elfennau allweddol ar gyfer opsiwn	Elfennau allweddol amgen ar gyfer opsiwn
001.	Cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynhyrchu cynllun mynediad integredig at	

Cyfeirnod	3B(i) Elfennau allweddol ar gyfer opsiwn	Elfennau allweddol amgen ar gyfer opsiwn
	<p>ddibenion hamdden – gyda chraidd sydd wedi'i fodelu ar ofynion Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy presennol [gweler isod]</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cynnwys darpariaethau pontio ar gyfer symud o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy i gynlluniau mynediad integredig at ddibenion hamdden 	
002.	<p>Deddfwriaeth i nodi elfennau y dylai cynlluniau mynediad integredig newydd eu cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> - asesiad o anghenion y cyhoedd - asesiad o fynediad penodol gan y cyhoedd - y camau sydd angen eu cymryd i wella mynediad - gofynion ymgynghori <p>cyfnod i gynhyrchu cynllun ac adolygiadau dilynol</p>	
003.	<p>Nodi'r mynediad cyhoeddus a gwmpesir gan y cynllun: hawliau tramwy cyhoeddus lleol, tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, llwybrau beicio, llwybrau hamdden sydd wedi'u hyrwyddo, Llwybrau Cenedlaethol, Llwybr Arfordir Cymru; eraill sy'n destun canllawiau [gweler isod]</p>	
004.	<p>Diddymu dyletswyddau awdurdodau lleol o ran Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy – gan ei phlethu â chyflwyno dyletswydd newydd ar gyfer cynlluniau mynediad integredig at ddibenion hamdden</p>	
005.	<p>Pwerau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer cynhyrchu cynllun mynediad integredig at ddibenion hamdden – canllawiau sydd wedi'u modelu ar ganllawiau presennol ar gyfer Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. [Nodi pa rannau o'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy sydd angen eu cadw ar gyfer y canllawiau ar gyfer y cynllun integredig.]</p>	<p>Mae'n fwy rhagnodol na'r broses bresennol ar gyfer Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy ac mae'n cynnwys camau cynllunio sydd wedi'u diffinio'n fanylach, fformat cynllun a gyhoeddir, adrannau a chynnwys</p>
006.	<p>Byddai angen i ganllawiau [gweler canllawiau Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy] gynnwys manylion pellach ynglŷn ag:</p> <ul style="list-style-type: none"> - amserlen - camau/prosesau - yr asesiadau sy'n ofynnol 	<p>Canllawiau a ddarparwyd heb fodel neu dempled; hefyd gadael rhywfaint o hyblygrwydd o ran y cynnwys, gan gynnwys yr hyn sy'n berthnasol i anghenion, blaenoriaethau a chamau gweithredu a nodwyd ar gyfer y</p>

Cyfeirnod	3B(i) Elfennau allweddol ar gyfer opsiwn	Elfennau allweddol amgen ar gyfer opsiwn
	<ul style="list-style-type: none"> - gofynion ymgynghori ychwanegol - rôl Fforymau Mynediad Lleol - pynciau/cynnwys sydd angen eu cynnwys yn y cynllun model/templod ar gyfer yr allbynnau sy'n ofynnol – y cynllun ei hun yn ogystal ag asesiadau; map mynediad [gweler Diwygiad 3A yn ogystal] a chynllun/map gweithredu	gymuned [mae hyn hefyd yn berthnasol i Ddatganiadau Ardal, prosesau Cynlluniau Lleodedd].
007.	Dylai'r canllawiau nodi cynnwys cysylltiedig ar gyfer gwaith gwella sydd angen ei ddiffinio yn y canllawiau, e.e. dulliau rheoli traffig sy'n berthnasol i fynediad at ddibenion hamdden; cysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus; twristiaeth hamdden	Ymgynghori â chyrff perthnasol fel sy'n briodol a chroesgyfeirio cynlluniau eraill fel sy'n briodol, e.e. awdurdodau lleol mewn perthynas â materion rheoli traffig perthnasol fel rhan o'r gwaith i greu cynllun, a'u cynnwys fel y bo'n briodol.
008.	- Cymorth cyllido neu gynllun ar gyfer gwelliannau.	

3B(ii) Dull diwygiedig ac estynedig ar gyfer Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy

- Darparu dyletswydd ar awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol i gynhyrchu cynlluniau ar gyfer gwella mwynhad o'r awyr agored drwy hamdden. Byddai'r cynllun yn cynnwys gwella hawliau tramwy lleol, llwybrau beicio, tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, a manau gwyrdd a glas a reolir ac sy'n hygyrch i'r cyhoedd.
- Mae'n rhaid i'r cynllun integredig gefnogi cyflenwi amcanion Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a'r Datganiad Ardal perthnasol.
- Byddai gofyn i bartneriaid penodol â chyfrifoldebau dros reoli mynediad cyhoeddus weithio ar y cyd gyda'r awdurdod lleol neu awdurdod parc cenedlaethol i gynhyrchu'r cynllun a byddai hyn yn cynnwys y corff sy'n gyfrifol am deithio llesol, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Sustrans

Byddai'r cynlluniau yn cynnwys:

- asesiad o anghenion presennol ac anghenion y dyfodol y cyhoedd ar gyfer mynediad i'r awyr agored at ddibenion hamdden;
- datganiad strategol ar sut bydd y mynediad yn cael ei wella;
- cynllun gweithredu deng mlynedd o hyd â chamau gweithredu penodol ar gyfer gwella mynediad i'r cyhoedd;
- byddai angen cynnal adolygiad interim o'r cynlluniau ar ddiwedd cyfnod o bum mlynedd. Byddai gofyn cynhyrchu cynllun sydd wedi'i adolygu a'i ddiwygio ar ddiwedd cyfnod o ddeng mlynedd.
- Cyfrifoldeb dros arwain y camau a nodwyd o fewn camau'r cynllun.

Elfennau allweddol o fewn cynnig opsiwn dull Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy sydd wedi'i ddiwygio a'i ymestyn:

Cyfeirnod	3B(ii) Elfennau allweddol ar gyfer opsiwn	Elfennau allweddol amgen ar gyfer opsiwn
001.	Cyflwyno dyletswydd newydd ar gyfer awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol i gynhyrchu cynllun camfeydd o fewn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Bydd dyletswydd ar yr awdurdod parc cenedlaethol i ymgynghori ag awdurdodau lleol sy'n rhan o ardal yr awdurdod parc cenedlaethol hwnnw	Bydd gan awdurdodau parciau cenedlaethol bwerau i gynhyrchu cynlluniau ar gyfer eu hardaloedd mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol cyfansoddol
002.	Bydd y ddyletswydd i gael Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cael ei ddileu – a bydd trefniadau pontio yn cael eu cynnwys	
003.	Dylai'r ddeddfwriaeth nodi bod angen cynnwys mynediad o fewn y cynlluniau, a fyddai'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> - hawliau tramwy lleol - llwybrau beicio, gan gynnwys y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol o fewn yr ardal - mynediad at ac o fewn tir mynediad dynodedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy [yn cynnwys diwygiadau os caiff eu gweithredu] - ffyrdd gwledig di-ddosbarth sy'n bwysig ar gyfer hamdden a mwynhad o'r awyr agored - tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n hygyrch i'r cyhoedd - llwybrau teithio llesol sydd o bwys i hamdden a mwynhad o'r awyr agored mannau gwyrdd a glas a reolir sy'n hygyrch i'r cyhoedd	<p>Â mwy o ffocws: dim ond yn cynnwys hawliau tramwy cyhoeddus lleol, tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, a disgresiwn o ran yr ardaloedd a'r llwybrau sy'n bwysig ar gyfer hamdden ac ymgysylltu â'r awyr agored o fewn ardal yr awdurdod lleol (gan gynnwys mynediad caniatol hirdymor i'r cyhoedd).</p> <p>Peidio â chynnwys mynediad manau glas o fewn y cynllun</p> <p>Hepgor ffyrdd gwledig di-ddosbarth</p> <p>Diffinio'r cysylltiad rhwng mynediad sydd wedi'i gynnwys ar y map mynediad integredig a'r hyn sydd angen ei wella o fewn y cynllun mynediad integredig newydd</p>
004.	Bydd y ddyletswydd ar gyfer y cynllun yn cynnwys cymorth ar gyfer cyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac amcanion o fewn Datganiadau Ardal.	
005.	Bydd dyletswydd ar bartneriaid i gyfrannu at y broses. Dylid nodi partneriaid sy'n cyfrannu, gan gynnwys: Fforymau Mynediad Lleol, corff â chyfrifoldeb am deithio llesol, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Dylai'r canllawiau hefyd nodi'r ymgynghorwyr eraill a fydd yn y broses fel sefydliadau sy'n cyfrannu; hefyd o bosibl: Sustrans, Ymddiriedolaethau Natur, Coed Cadw, Glandŵr Cymru, ac eraill; cwmnïau dŵr, y Gymdeithas

Cyfeirnod	3B(ii) Elfennau allweddol ar gyfer opsiwn	Elfennau allweddol amgen ar gyfer opsiwn
	Bydd dyletswydd i ymgynghori â'r Fforwm Mynediad Lleol wrth gynhyrchu cynllun, neu'r holl Fforymau Mynediad Lleol perthnasol ar gyfer cynlluniau ar y cyd	Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB). [O ran Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy,] gellid enwi'r sefydliadau yn y canllawiau. Dylai'r canllawiau nodi rôl Fforymau Mynediad Lleol
006.	Bydd y ddyletswydd ar gyfer y cynllun yn cynnwys: asesiad o anghenion presennol ac anghenion y dyfodol y cyhoedd ar gyfer mynediad i'r awyr agored at ddibenion hamdden; <ul style="list-style-type: none"> • datganiad strategol ar sut bydd y mynediad yn cael ei wella; • cynllun gweithredu deng mlynedd o hyd â champau gweithredu penodol ar gyfer gwella mynediad i'r cyhoedd; • byddai angen cynnal adolygiad interim o'r cynlluniau ar ddiwedd cyfnod o bum mlynedd. Byddai gofyn cynhyrchu cynllun sydd wedi'i adolygu a'i ddiwygio ar ddiwedd cyfnod o ddeng mlynedd. • Cyfrifoldeb dros arwain y camau a nodwyd o fewn camau'r cynllun. 	Bydd dyletswydd i ymwneud â Chynlluniau Llesiant ac i ymgynghori â sefydliadau iechyd perthnasol Dylid cynnwys gofyniad tra thebyg i'r broses teithio llesol er mwyn nodi: <ul style="list-style-type: none"> • Mapiau sy'n asesu'r ddarpariaeth gyfredol sy'n ceisio nodi'r angen am ddarpariaeth yn y dyfodol [cysylltiad posibl â Diwygiad 3A, y map mynediad integredig] • Map yn dangos prosiectau ar gyfer gwella. Dylid nodi'r ddyletswydd i asesu a chynnig blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau ar gyfer anghenion defnyddwyr hawliau uwch sy'n gysylltiedig â newidiadau diwygiadau, o ganlyniad i 1A/B a 2A yn benodol
007.	Dylai fod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pwerau i gyhoeddi ynglŷn â phrosesau, fformat a chynnwys cynlluniau	
008.	Dylai'r canllawiau nodi rhannau o'r awdurdodau lleol y bydd angen ymgynghori â nhw: fel yr Awdurdod Priffyrdd, yr Awdurdod Arolygu, yr Awdurdod Traffig, adrannau eraill sy'n rheoli mannau gwyrdd / tir mynediad sy'n hygyrch i'r cyhoedd o fewn y cynllun. (Wedi'u nodi yn ôl sut maent yn cael eu cyfansoddi yn y gyfraith.)	Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymateb i geisiadau rhesymol am wybodaeth gan awdurdodau parciau cenedlaethol er mwyn iddynt gael mewnbwn perthnasol ar gyfer eu cynlluniau
009.	Byddai dyletswydd y cynllun yn gymwys ar gyfer bob mynediad a nodwyd o fewn ardal yr awdurdod lleol / awdurdod parc cenedlaethol. Pwerau/hyblygrwydd i gyfuno ag awdurdodau lleol eraill er mwyn cynhyrchu cynllun ar y cyd (gan gynnwys gydag awdurdodau parciau cenedlaethol).	Dylid gwneud dyletswydd yn rhanbarthol, gan gyfuno ardaloedd awdurdodau lleol, e.e. i gyd-fynd â ffiniau Datganiadau Ardal

Cyfeirnod	3B(ii) Elfennau allweddol ar gyfer opsiwn	Elfennau allweddol amgen ar gyfer opsiwn
	Noder: Ceir gofyniad yn ogystal i ymgynghori ag awdurdodau lleol cyfagos ac awdurdodau parciau cenedlaethol, h.y. y rheini sy'n cynhyrchu rhaglenni ardal fewnol (IAPs).	
010.	Dylai'r canllawiau nodi gwaith sydd wedi'i gynnwys sy'n ymwneud â'r canlynol: cynnal map diffiniol o hawliau tramwy cyhoeddus; mapio sy'n ymwneud â'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy [yn cynnwys cyfyngiadau a gwaharddiadau]; polisïau strategol, nodau	
011.	Nid oes dyletswydd i weithredu ond nodir cyfrifoldeb o fewn y cynlluniau gweithredu.	
012.	Darpariaeth ariannu ar gyfer gweithredu gwelliannau mynediad y cynllun, gan gynnwys cysylltu â chynlluniau amaeth-amgylcheddol / rheoli tir yn y dyfodol	

3B(iii) Cynllun Gwella Mynediad Strategol Cenedlaethol at Ddibenion Hamdden

Elfennau allweddol o fewn cynnig opsiwn Cynllun Gwella Mynediad Strategol Cenedlaethol at Ddibenion Hamdden:

Cyfeirnod	3B(iii) Elfennau allweddol ar gyfer opsiwn	Elfennau allweddol amgen ar gyfer opsiwn
001.	Bydd dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gynhyrchu cynllun strategol ar gyfer gwella a datblygu asedau hamdden cenedlaethol, gan ddarparu fframwaith ar gyfer gwella eu cymorth/cyflenwad ar gyfer amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Dylid cynnwys hyrwyddiad strategol o asedau penodol o fewn y ddyletswydd
002.	Pwerau i nodi llwybrau neu ddyletswydd asedau hamdden sy'n berthnasol ac i osod safonau ar gyfer rheoli, ansawdd, gwella llwybrau neu ardaloedd hamdden sydd o bwys cenedlaethol; gwella cysylltedd rhwng asedau o'r math	Cynnwys cynrychiolaeth mapio o lwybrau ac ardaloedd o'r fath Dylid pennu'r cais ar gyfer: Llwybrau Cenedlaethol; Llwybr Arfordir Cymru; Llwybrau hamdden eraill
003.	Pwerau ar gyfer Llywodraeth Cymru er mwyn penderfynu sut y bydd yn cynhyrchu'r cynllun cenedlaethol a/neu elfennau ohono	
004.	Byddai'r ddyletswydd yn nodi asedau ar gyfer eu cynnwys a dylai fod yn berthnasol yn rhanbarthol neu ar gyfer asedau/llwybrau hamdden cenedlaethol.	Dylai'r cynllun strategol gynnwys asedau strategol sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru

Cyfeirnod	3B(iii) Elfennau allweddol ar gyfer opsiwn	Elfennau allweddol amgen ar gyfer opsiwn
	Ar gyfer Llywodraeth Cymru i benderfynu'r asedau sydd angen eu cynnwys.	
005.	Byddai angen cynnwys 'cynllun gweithredu' o fewn y cynllun ar gyfer gwelliannau ac i gynnal safonau asedau a nodir	
006.	Gofyniad monitro ac adrodd o ran gweithredu a chynnydd y cynllun	
007.	Darperir adnoddau i gyflawni'r ddyletswydd.	
008.	Cydamseru ac integreiddio'r cynllun cenedlaethol â chynlluniau mynediad integredig lleol a chynlluniau rhaglenni penodol [fel ar gyfer Llwybrau Cenedlaethol a Llwybr Arfordir Cymru].	
009.	Cyswllt rhwng y gofyniad hwn a Diwygiad 3A: dylid cynnwys mynediad penodol i'r cynllun cenedlaethol ar y map mynediad integredig.	
010.	Integreiddio cynlluniau presennol ar gyfer Llwybrau Cenedlaethol gyda throsolwg strategol.	

Syniadau ehangach ar gyfer cwmpas posibl cynllun o'r math hwn:

- Ni ddylid ei gyfyngu i Lwybrau Cenedlaethol a Llwybr Arfordir Cymru yn unig
- Yr holl dir – Ystad Goetir Llywodraeth Cymru / gwarchodfeydd natur / holl dir Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cynnwys hawliau mynediad / mynediad o fewn y Goedwig Cenedlaethol arfaethedig (cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol)

Llwybrau eraill a hyrwyddir (yn ychwanegol i Lwybrau Cenedlaethol / Llwybr Arfordir Cymru) ond a fyddai'n mynd trwy fwy nag un awdurdod lleol – e.e. llwybrau hamdden rhanbarthol sydd wedi'u hyrwyddo]

Atodiad A

Aelodau Grŵp Arbenigol 3 a oedd yn bresennol yn y cyfarfod:

Enw	Sefydliad
Gwyn Teague	Cyngor Bro Morgannwg
Charles de Winton	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Rebecca Brough	Y Cerddwyr
Lisa Lloyd	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Beverley Penney	Y Gymdeithas Mannau Agored
Tom Hutton	Beicio'r DU
Bernard Griffiths	Undeb Amaethwyr Cymru
Mark Weston	Cymdeithas Ceffylau Prydain
Jont Bulbeck	Cyfoeth Naturiol Cymru
Alison Roberts	Cyfoeth Naturiol Cymru
Jayne Carter	Cyfoeth Naturiol Cymru